# Astudiaeth Achos: Project Pontio'r Cenedlaethau Windrush

Awduron: Isioma Ikediashi, Rheolwr Project, y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd, a Casgliad y Werin Cymru.

Datblygwyd Project Pontio'r Cenedlaethau Windrush gan y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd (ACC) ar y cyd â disgyblion ysgolion lleol, i ymchwilio i fywydau cenhedlaeth Windrush a gyrhaeddodd Gymru o India'r Gorllewin rhwng y 1940au a'r 1970au.

Gobaith y project oedd pontio'r bwlch rhwng cenedlaethau hen ac ifanc, gan ganolbwyntio ar drosglwyddo diwylliant a thraddodiad, a rhannu profiadau am deithio ac ymsefydlu. Mae'n cofnodi cyfraniad rhyfeddol ymfudwyr Du ac o Leiafrifoedd Ethnig i'r DU, yn enwedig yn ardal Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot.

Mae'r project yn dathlu bywydau deg henadur – rhai yn aelodau o genhedlaeth Windrush ac eraill sydd wedi gwneud cyfraniad i gymdeithas amlddiwylliannol De Cymru.

## Cysylltiadau â’r Cwricwlwm

**Camau Cynnydd 4 a 5:** Hanes, Sgiliau llythrennedd, Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

**FCD: Cynnyrch:**

> **3.1.** Cynllunio, ffynonellau a chwilio
>
> **3.2.** Creu: Defnyddio amrywiaeth o feddalwedd a thechnegau i greu project cydweithredol gyda nifer o elfennau amlgyfrwng

## Dylunio project a chais am nawdd

Syniad yr ACC yn Abertawe oedd ymchwilio i hanesion cenhedlaeth Windrush yng Nghymru a'u cofnodi.  Roedden ni am greu cyfle i bobl ifanc, oedd yn gyfarwydd neu'n newydd i'n gwasanaethau, i gyfarfod henaduriaid o India'r Gorllewin a'u teuluoedd, i ddysgu am yr heriau a'r llwyddiannau a theimlo, gobeithio, yr effaith a gawsant ar eu cymunedau.

Wedi rhannu'r syniad gyda'r disgyblion, roedden nhw'n llawn cyffro ac yn gefnogol i ddatblygu project.

Llenwyd ffurflen gais a'i hanfon at Gronfa Dreftadaeth y Loteri (HLF), a chafwyd sgyrsiau pellach a chefnogaeth i gynllunio'r project. Rhannwyd y syniad ag Oriel Gelf Glynn Vivian, a ddaeth yn bartner treftadaeth y project.

Gofynnwyd hefyd am gymorth ysgolion lleol a sefydliadau eraill yn Abertawe, a derbyniwyd cefnogaeth hael. Yn eu plith roedd Ysgol Gyfun Pentrehafod, Coleg Celf Abertawe PCYDDS, Amgueddfa Cymru a Tata Steel. Darparodd y partneriaid hyfforddiant, cyfleusterau ac offer am ddim, a chyfle i ymweld â'u safleoedd.

Gwnaed cais i HLF yn 2016 a derbyniwyd nawdd am 18 mis i gwblhau Project Pontio'r Cenedlaethau Windrush o fis Mawrth 2017.

Amlinelliad o Broject Windrush ar wefan y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd.

## Cynllun project

Bydd tua 15 o bobl ifanc o broject 'I Can'* yr ACC yn Abertawe yn cyfarfod ag aelodau o genhedlaeth Windrush (pobl hŷn o India'r Gorllewin a gyrhaeddodd Abertawe a Phort Talbot rhwng y 1940au a'r 1970au) i ddysgu am eu diwylliant a'u treftadaeth, eu taith, eu hymsefydlu a'u hintegreiddio. Bydd hyn yn cynnwys cyfweliadau byr gydag aelodau o genhedlaeth Windrush, gemau diwylliannol rhyngweithiol, ymweliadau â lleoliadau o ddiddordeb (e.e. Tata Steel, lle bu nifer yn gweithio), ryseitiau traddodiadol a blasu bwyd, cynhyrchu clipiau fideo byr, dylunio a phrintio llyfryn yn cydnabod y project ac yn dogfennu'r gwaddol y gall y cyhoedd ei weld ar wefan Casgliad y Werin Cymru.

Ein partner treftadaeth yw Oriel Gelf Glyn Vivian fydd yn helpu'r bobl ifanc ag ymchwil a hyfforddiant, a byddwn yn lansio'r project yn yr oriel ar ei newydd wedd. Cynhelir arddangosfa derfynol yno hefyd ar ddiwedd y project. Caiff llyfryn a chlipiau fideo eu dosbarthu i'r ysgolion sydd wedi ein cefnogi. Bydd yn broject lliwgar, llawn gwybodaeth fydd yn croniclo treftadaeth India'r Gorllewin yn ne Cymru cyn iddo gael ei golli am byth, a gobeithio yn canfod os oes unrhywbeth wedi newid erbyn heddiw.

*Nod Project 'I Can' yw annog pobl ifanc ddifreintiedig, yn enwedig ffoaduriaid a cheiswyr lloches, i fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol mewn awyrgylch diogel. Y gobaith yw pontio rhwystrau, annog cyfranogi a chydweithio cymunedol, a chanolbwyntio ar les pobl ifanc.

## Lansio'r project



Lansiwyd y project yn Ebrill 2017 yn Oriel Gelf Glyn Vivian, gyda phwysigion, henaduriaid cenhedlaeth Windrush, pobl ifanc ac aelodau o'r gymuned yn bresennol.

Delweddau o'r lansiad

## Hyfforddiant ac ymchwil

Trefnwyd nifer o sesiynau hyfforddiant ac ymchwil i feithrin sgiliau angenrheidiol y bobl ifanc. Darparwyd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant hwn am ddim gan bartneriaid y project.

**Gweithdy ysgrifennu cwestiynau holiadur** Sarah Younan, Cydlynydd Ymgysylltu Ieuenctid Amgueddfa Cymru arweiniodd y sesiynau ar ddrafftio cwestiynau holiadur. Gweithiodd y bobl ifanc mewn grwpiau i greu eu cwestiynau ac i holi ei gilydd. Helpodd y sesiynau y bobl ifanc i feddwl am fanylion pwysig i'w cofnodi wrth holi, sut i greu stori gyflawn o'r cwestiynau, a sut i fagu hyder wrth gynnal cyfweliadau.

**Gweithdy sgiliau celf** Arweiniodd yr artist Tim Stokes weithdy diwrnod ar dechnegau braslunio, darlunio byw a phaentio. Ymchwiliodd y bobl ifanc i artistiaid enwog, yn enwedig Tamara Madden – ysbrydoliaeth artistig y mwyafrif ar gyfer eu gwobr gelf. Dyma nhw hefyd yn cael sgwrs skype gyda Tamara gan ei holi am ei bywyd, mudo, celf, ysbrydoliaeth a llawer mwy. Paentiodd un o'r bobl ifanc gopi o waith Tamara.

**Gweithdy ymchwil a sgiliau celf** Aeth rheolwr a phrif artist y project i Ysgol Gyfun Pentrehafod i gyfarfod pobl ifanc y project ac arwain diwrnod cyfan o ymchwil i bobl cenhedlaeth Windrush a'u hanes, gan gymysgu lliwiau, paentio a chynllunio ar gyfer eu gwobr gelf.

**Dysgu ffilmio gyda chamera a dictaphone** Dysgodd yr artist Tim Stokes y bobl ifanc sut i ddefnyddio camerâu DSLR i ffilmio a thynnu lluniau. Dyma nhw hefyd yn dysgu sut i ddefnyddio dictaphone i recordio sain.

**Hyfforddiant hanes llafar**. Arweiniodd Beth Thomas, Rhwydweithiwr Rhanbarthol Cymru y Gymdeithas Hanes Llafar, hyfforddiant ar hanes llafar. Dysgodd y bobl ifanc am fformat storio, sut i ddefnyddio offer recordio, a sut i baratoi'r man cyfweld a'r cyfwelydd.

**Golygu fideo a Photoshop**. Dros ddau ddiwrnod, derbyniodd y bobl ifanc hyfforddiant ar olygu fideos a Photoshop gan yr artist Tim Stokes. Dyma nhw wedyn yn golygu recordiad pob cyfweliad.

## Y Cyfweliadau

**Jackie a Rob Jones**. Cyrhaeddodd Jackie Gymru ym 1972 i hyfforddi fel nyrs. Wedi hyfforddi, bu'n gweithio mewn ysbytai yng Nghymru am dros 30 mlynedd. Mae'n briod â Rob, yn fam i ddwy ferch brydferth a mam-gu i ddwy wyres hyfryd.




[Jackie a Rob Jones Cyfweliad 1]

[Jackie a Rob Jones Cyfweliad 2]

**Mr Leonard Lawrence**. Ganwyd Mr Lawrence yn Jamaica. Symudodd i'r DU ym 1960 ac ymsefydlu ym Mhort Talbot gan weithio fel adeiladwr yn Tata Steel. Roedd yn enwog am ei gryfder a'i brofiad wrth ei waith, ac enillodd y llysenw 'Lenny the Lion'.

[Leonard Lawrence - Cyfweliad 1]

[Leonard Lawrence - Cyfweliad 2]

**Elva Headman, Joyce Hall a Nena Lawrence**. Tair ffrind a symudodd fesul un o Jamaica ac ymsefydlu ym Mhort Talbot ddechrau'r 1960au. Cymhwysodd y tair fel nyrsys ac aros yn y proffesiwn am weddill eu gyrfa.

[Elva Headman, Joyce Hall a Nena Lawrence - Cyfweliad]

**Rudis Perbenton**. Artist yw Rudis a ddaeth o Weriniaeth Dominica yn y 1990au. Dangosodd ei waith mewn orielau ac ysgolion drwy Gymru a dysgu celf mewn ysgolion hefyd.



Rudis Perbenton - Cyfweliad

**Irving a Lil Saunders.** Dilynodd Irving ei dad o Drinidad a Tobago yn y 1960au. Symudodd Lil o Jamaica i'r DU yn ei hugeiniau a cymhwysodd y ddau fel nyrsys. Mae'r ddau'n briod ac Irving wedi ymddeol tra bo Lil yn dal i weithio fel nyrs. Magodd y cwpwl ddau fab annwyl yn Abertawe.

Irving a Lil Saunders - Cyfweliad

**Cyfweliad â'r bobl ifanc am eu profiadau**. Gyda diwedd y project yn nesáu, ffilmiodd un o'r bobl ifanc gyfweliadau â phawb i gofnodi eu profiadau o weithio ar y project. Roedd hwn yn ddull gwerthfawr o adolygu'r hyn â ddysgwyd.

Cyfweld y bobl ifanc - Beth wnes ti fwynhau?

**Tamara Madden.** Dyma'r bobl ifanc yn cyfweld Tamara Madden, paentiwr o Jamaica'n wreiddiol a symudodd i UDA yn ei harddegau. Mae ei bywyd yn Jamaica yn ddylanwad mawr ar ei gwaith, ac mae wedi portreadu pobl ddu gyffredin fel brenhinoedd a breninesau cryf, pwerus. Cynhaliwyd y cyfweliad dros Skype cyn ei marw ym mis Tachwedd 2017, a dysgodd y bobl ifanc am ei bywyd a'i gwaith.






[Tamara Madden - Cyfweliad]

[Tudalen Tamara Madden ar Wikipedia]

## Ymweliadau



**Tata Steel.** Aeth y bobl ifanc ar daith i weithfeydd Tata Steel ym Mhort Talbot gyda Mr Lawrence, fu'n gweithio yno yn y 1980au. [Ymweliad Tata Steel]

**Parc Margam**. Aeth y bobl ifanc ar daith i Barc Margam gyda Mr Lawrence, a'i recordio'n rhannu atgofion am dreulio'r Sul yn y parc gyda'i deulu. Dyma nhw hefyd yn mynd i gaffi lleol ble byddai'n treulio amser gyda'i ffrindiau.

**Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru** Aeth y rheolwr project â'r bobl ifanc ar daith i Sain Ffagan i weld sut mae hanes Cymru'n cael ei gyflwyno a'i rannu.

**Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd**. Gwahoddodd Sarah Younan, Cydlynydd Ymgysylltu Ieuenctid Amgueddfa Cymru, y bobl ifanc ar daith tu ôl i'r llenni yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Gwelodd y bobl ifanc sbeisiau a pherlysiau o bedwar ban byd a dysgu am dacsidermi a stwffio anifeiliaid. Dyma nhw hefyd yn gweld nifer o gasgliadau o Affrica a dysgu am ddehongli'r casgliadau. Cynhaliwyd gweithdy yn dilyn y daith i drafod sut i fynd ati i gasglu a dehongli straeon cenhedlaeth Windrush.

## Arts Award

Casgliad o gymwysterau unigryw yw Arts Award sy’n cefnogi unrhywun dan 25 oed i dyfu fel artist neu arweinydd celf, gan eu hysbrydoli i gysylltu â’r byd celf ehangach a chymryd rhan drwy ymateb i heriau – o fyd ffasiwn i gelf digidol, crochenwaith neu farddoniaeth. Y corff sy'n dyfarnu Arts Award yw Coleg y Drindod Llundain.

Treuliodd y bobl ifanc dros 40 awr yn cofnodi tystiolaeth ac yn myfyrio ar y dystiolaeth honno ar gyfer Arts Award. Gweithiodd tua 5 o'r bobl ifanc ar adolygu a myfyrio, gan rannu eu sgiliau â ffrindiau a chyd-ddisgyblion a mynychu digwyddiadau celf, oedd yn cyfri at y wobr. Dyma nhw'n derbyn tystysgrif efydd am eu gwaith.

Blog ar wefan Arts Award



## Golygu fideo a datblygu llyfryn




Treuliodd y bobl ifanc bedair sesiwn diwrnod yn golygu'r fideos, yn casglu ffotograffau ar gyfer y llyfryn ac yn trawsgrifio'r holl gyfweliadau. Dyma nhw'n rhannu'n grwpiau ac yn canolbwyntio ar wahanol gyfweliadau. Dyma nhw'n trafod ac yn penderfynu ar adrannau'r llyfryn, rhifo'r tudalennau a dylunio'r clawr. Dyma nhw'n creu sloganau eu hunain a dysgu sut i'w printio ar grysau T i'w gwisgo yn nigwyddiad dathlu'r project.

Ffilmiodd un o'r bobl ifanc gyfweliadau â phawb i gofnodi eu profiadau o gwblhau'r project.

[Llawlyfr Project Pontio'r Cenedlaethau Windrush]

[Cyfweliadau'r bobl ifanc - Beth wnes ti fwynhau?]

## Dathliad y project

Ar ddydd Gwener 17 Awst, cynhaliodd y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd ddigwyddiad i arddangos gwaith y bobl ifanc a dathlu bywydau cenhedlaeth Windrush. Gwahoddwyd aelodau cenhedlaeth Windrush a'r bobl ifanc, partneriaid a chyfranddeiliaid, a'r gymuned leol.

Denwyd cynulleidfa o gymunedau India'r Gorllewin, aelodau a sefydliadau cymunedol eraill, Uwch Siryf Gorllewin Morgannwg, Henry Gilbert, ac Arglwydd Faer Abertawe, David Phillips. Gwahoddwyd Leonard Lawrence, un o genhedlaeth Windrush a gyfwelwyd gan y bobl ifanc, i siarad am ei fywyd ac am y profiad o gyfrannu at y project.



Tudalen [lansiad Project Windrush] ar wefan y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd.